



CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

COLEG PENYBONT

2017-2020

CYNNWYS

1	Disgrifiad o Goleg Penybont a'n swyddogaethau craidd	
2	Datganiad Cenhadaeth	
3	Amcanion Cydraddoldeb a chamau i gyflawni'r amcanion 1. Cwricwlwm a Chyflawniad Academaidd 2. Gwasanaethau Myfyrwyr a Llais y Dysgwr 3. Cyflogaeth a Datblygiad Cyflogeion 4. Iechyd a Lles 5. Amgylchedd Corfforol 6. Caffaeliad	
4	Trefniadau ar gyfer adnabod, casglu a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb	
5	Trefniadau ar gyfer asesu a monitro'r effaith debygol ar grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau ynghylch unrhyw effeithiau	
6	Cynllun gweithredu ar gyfer amcanion ynghylch cyflog y rhywiau	
7	Yr Iaith Gymraeg	
8	Sut bydd Coleg Penybont yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau i gyflogeion	
9	Cysylltwch â Ni	

1. Coleg Penybont â'n swyddogaethau craidd

Mae Coleg Penybont yn goleg Addysg Bellach (AB) sy'n cefnogi dros 6,000 o fyfyrwyr ac yn cyflogi dros 600 aelod staff ar draws ei bum campws ym Mhen-y-bont, Pencoed, Heol y Frenhines, Maesteg, a Chaerdydd. Mae Hyfforddiant Engage, cangen o Goleg Penybont sy'n canolbwyntio ar fusnes ac sy'n wynebu'n allanol, wedi'i leoli yn Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont.

Mae'r Coleg yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyrsiau, o lefel mynediad i lefel gradd, mewn dros 20 maes galwedigaethol, ac yn darparu'r mwyafrif ohonynt yn ein Campwsau Penybont a Phencoed. Gellir astudio'r cwrs BSc (Anrh) llawn amser mewn Gwaith Cymdeithasol yn ein Campws Heol y Frenhines, tra bod ein Campws Maesteg yn cynnig cyrsiau Lefel 1 llawn amser mewn Cyfryngau Rhyngweithiol ac Archwilio'r Sectorau Celfyddydau Creadigol a Chyfryngau. Mae'r Coleg yn gynyddol yn darparu rhaglenni astudio mwy hyblyg, yn y gweithle ac ar-lein, trwy ein tîm Hyfforddiant Engage a chyfleoedd Learndirect.

Mae dros 100 o fyfyrwyr yn astudio'r cwrs BA (Anrh) mewn Arferion Ffotograffig a'r Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio yn ein Hacademi Gelfyddydau yng Nghaerdydd.

Mae Coleg 6ed Dosbarth Penybont yn bartneriaeth rhwng Coleg Penybont ac Ysgol Gyfun Pencoed. Mae'r 6ed Dosbarth yn darparu'r cyfleoedd unigryw a'r profiadau dysgu ac addysgu gorau y mae'r Coleg a'r ysgol yn gallu eu cynnig.

Mae gan y Coleg mwy o fyfyrwyr addysg uwch rhyddfrait nag unrhyw Goleg AB arall yng Nghymru, gyda dros 850 o fyfyrwyr yn dewis cwblhau eu cyrsiau addysg uwch yn lleol bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn bartner cydweithredol â Phrifysgol De Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

2. Datganiad Cenhadaeth

Mae trin pawb yn deg, gyda pharch, a gwerthfawrogi gwahaniaeth yn bethau rydym ni yng Ngholeg Penybont yn eu cymryd o ddifrif. Mae ein gwerthoedd 'Byddwch yn Bopeth y Gallwch Fod' yn seiliedig ar hyrwyddo amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal, cefnogi myfyrwyr a staff sydd ag anghenion ychwanegol neu anabledau corfforol, a gwerthfawrogi'r manteision y mae amrywiaeth yn eu cynnig a sut mae hyn yn cyfoethogi'r Coleg.

Ein gweledigaeth ar gyfer y Coleg yw bod yn sefydliad teg, lle mae pawb yn derbyn y gwahaniaeth rhwng unigolion, yn cefnogi ei gilydd i gyflawni eu nodau, ac yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithredu.

Mae cyflawni a hyrwyddo cydraddoldeb yn ein Coleg yn rôl ar gyfer pob un ohonom, a hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd rydym wedi ei wneud, ac y mae'n rhaid i ni barhau i'w wneud.

3. Amcanion Cydraddoldeb (yn cynnwys amcanion cyflog) a chamau i gyflawni'r amcanion ac amserlenni

Mae'r adran hon yn amlinellu ein hamcanion allweddol ar gyfer cydraddoldeb, y camau rydym yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu cyflawni, ac erbyn pryd rydym yn disgwyl eu cyflawni.

Mae pob un o'r nodweddion gwarchoddedig wedi cael ei ystyried, a bydd yr amcanion yn nodi'n glir lle mae grwpiau penodol yn cael eu targedu trwy strategaethau, camau gweithredu, neu gyfleoedd gweithredu cadarnhaol.

Wrth bennu ein hamcanion, rydym wedi ystyried pwrpas trosfwaol y ddyletswydd gyffredinol. Hwn yw'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
2. hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt;
3. meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt;

Mae'r Ddeddf yn egluro bod talu sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- cael gwared neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – yn gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw croen neu genedligrwydd
- Crefydd neu ffydd – gan gynnwys diffyg ffydd
- Priodas a phartneriaeth sifil and civil partnership

Mewn ymgynghoriad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi nodi'r swyddogaethau canlynol yng Ngholeg Penybont fel y rhai mwyaf pwysig o ran cydraddoldeb a'r ddyletswydd gyffredinol. Yn fras:

1. Cwricwlwm a Chyflawniad Academiaidd
2. Gwasanaethau Myfyrwyr a Llais y Dysgwr
3. Cyflogaeth a Datblygiad Cyflogeion
4. Iechyd a Lles
5. Amgylchedd corfforol
6. Caffaeliad

3.1 Cwricwlwm a Chyflawniad Academaidd

- Byddwn yn gwella mynediad i'n cyrsiau i bawb, beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig, a sicrhau ein bod ni'n ystyried anghenion a barn pob grŵp gwarchoddedig wrth i ni ddylunio a chyflwyno cyrsiau newydd, gan ymgorffori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y cwricwlwm yn systematig.
- Byddwn yn mesur, monitro a gwella'r ffordd rydym yn darparu cyrsiau i grwpiau gwahanol yn barhaus.
- Byddwn yn adeiladu diwydiant cadarnhaol, gan ddefnyddio dealltwriaeth a dulliau cyffredin i integreiddio materion cydraddoldeb i mewn i waith pob dydd mewn perthynas â phob grŵp gwarchoddedig.
- Byddwn yn casglu data ynghylch ceisiadau am gyrsiau a hysbysiadau o newidiadau ac yn eu cymharu ag ystadegau'r Coleg.
- Byddwn yn mireinio'r data ymhellach er mwyn cael gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â'r mathau o anabledau sydd gan fyfyrwyr a'r amrywiaeth o gefndiroedd ethnig y maent yn dod ohonynt. Bydd y wybodaeth yma yn ein galluogi ni i roi systemau mwy pwrpasol ar waith er mwyn unioni unrhyw anghydbwysedd.

3.2 Gwasanaethau Myfyrwyr a Llais y Dysgwr

- Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau myfyrwyr yn hollol hygyrch i bob grŵp gwarchoddedig.
- Byddwn yn sicrhau bod pob aelod staff rheng flaen yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn am y nodweddion gwarchoddedig.
- Byddwn yn cwblhau Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob digwyddiad gwasanaethau myfyrwyr yn y Coleg.
- Byddwn yn hyrwyddo strategaethau i'r holl fyfyrwyr er mwyn hyrwyddo eu hiechyd a lles meddyliol a chorfforol.
- Byddwn yn gweithio gyda myfyrwyr benywaidd er mwyn gwella hunan-barch a hyder wrth osod uchelgeisiau a nodau academaidd a phersonol.

3.3 Cyflogaeth a Datblygiad Cyflogaion

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein polisïau cyflogaeth, y cyfleoedd maent yn eu cynrychioli yn y gymuned leol, a'r effaith maent yn cael ar ein staff. Yn ein nod a'n hymroddiad i gyflawni ein huchelgeisiau o ran cydraddoldeb, a bod yn arweinydd yn y gymuned leol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da, rhaid asesu ein polisïau ein hunain ynghylch eu heffaith ar gydraddoldeb.

- Byddwn yn casglu, monitro a chyhoeddi data am gydraddoldeb mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig ac mewn perthynas â holl agweddau ein polisïau cyflogaeth. Caiff hyn ei gyhoeddi, ei ddiweddarau a'i adolygu bob blwyddyn.

- Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag achosion o anghydraddoldeb, gan sicrhau bod pob proses a rhyngweithiad yn cefnogi iechyd meddwl i hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb a chydraddoldeb.
- Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf dan anfantais yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 2017.
- Byddwn yn parhau i hysbysu swyddi gwag i sefydliadau a fyddai'n annog ac yn denu amrediad mwy amrywiol o ymgeiswyr.
- Byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd er mwyn cynnal ei effeithiolrwydd a'i effaith gadarnhaol barhaus yn y gweithle.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb i bob grŵp gwarchoddedig, yn enwedig y rheini y'u tangynrychiolir, trwy gamau gweithredu priodol wedi'u targedu.
- Byddwn yn gweithio i ddatblygu grŵp ar gyfer pobl sydd ag anableddau er mwyn sicrhau y gallant ddweud eu dweud.
- Byddwn yn monitro ac yn adolygu mathau o gytundebau yn ôl nodweddion gwarchoddedig er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gydradd, ac yn nodi unrhyw ardaloedd y mae angen gweithredu ynddynt.
- Byddwn yn gweithio gydag elusen Chwarae Teg i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Lle nodir unrhyw anomaledau posib o ran cyflogau o ganlyniad i unrhyw nodweddion gwarchoddedig, bydd y Coleg yn ceisio deall y rhain yn well a chynnig camau gweithredu gwellhaol.
- Bydd y Coleg yn weithredol yn ceisio casglu data staff mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig er mwyn minimeiddio'r wybodaeth 'anhysbys', ac felly'n darparu gwybodaeth ar gyfer archwiliadau ynghylch cyflog cyfartal yn y dyfodol.
- Byddwn yn parhau i annog staff i ddiweddarau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'u proffiliau cydraddoldeb trwy gyfathrebiadau ac ymgyrchoedd parhaus.
- Byddwn yn archwilio arferion gorau ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb [e.e. Colegau Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, colegau dinasoedd Lloegr] a phennu cyllideb ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb.

3.4 Iechyd a Lles

- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyfranogiad ac ymgysylltiad myfyrwyr a staff mewn ymgyrchoedd lles ar draws y Coleg, ac yn ystyried camau gweithredu priodol yn seiliedig ar y canfyddiadau.
- Byddwn yn parhau i ymgorffori prosiect 'Amser i Newid' yr elusen Mind yng ngwaith y Coleg, gan weithio gyda myfyrwyr a staff i lunio strategaeth i sicrhau bod iechyd meddwl yn cael ei ddatstigmateiddio yng Ngholeg Penybont.

- Byddwn yn datblygu dull cyflogeion ar gyfer lechyd Meddwl fel bod cyflogeion yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth ar gipolwg.
- Byddwn yn cynnal y Safonau lechyd Corfforaethol Platinwm ac Aur.
- Byddwn yn gweithio tuag at gam Arweinydd y cynllun Hyderus o ran Anabledd.

3.5 Amgylchedd Corfforol

Rydym wedi ymgymryd â llawer iawn o waith er mwyn sicrhau nad yw amgylchedd corfforol ein cyfleusterau yn rhoi grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl, dan anfantais.

- Byddwn yn ceisio sicrhau bod yr Academi STEAM newydd yn briodol i bob defnyddiwr, e.e. trwy ystyried bod cyfran o'r desgiau yn addasadwy.
- Bydd pob arwydd yn ddwyieithog.
- Bydd cyfran o'r toiledau yn neillrywiol.
- Ystyrir y defnydd o liwiau cyferbyniol wrth addurno adeiladau a chelfi.

3.6 Caffaeliad

- Byddwn yn sicrhau bod sefydliadau eraill sy'n darparu swyddogaethau ar ein rhan yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb, a byddwn yn monitro eu perfformiad ynghylch bodloni'r Ddyletswydd.
- Byddwn yn gwneud hyn trwy adolygu ein prosesau caffael yn 2019-20 a chynnwys mesurau a thechnegau priodol.

4. Trefniadau ar gyfer Casglu a Chyhoeddi Gwybodaeth sy'n Gysylltiedig â Chydraddoldeb

Cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arwain fydd monitro corfforaethol y polisi. Bydd meysydd cwricwlwm ac adrannau cymorth busnes hefyd yn gyfrifol am fonitro a gweithredu'r polisi yn lleol trwy weithdrefnau ac arferion, adrodd trwy'r broses gynllunio ac adrodd i'r Uwch Dîm Arwain yn ôl yr angen.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol
- Arolygon Myfyrwyr a Staff
- Dadansoddi data
- Monitro cwynion ffurfiol
- Adrodd i'r Llywodraethwyr
- Casglu a rhannu enghreifftiau o arferion da
- Strategaeth Gwella Ansawdd
- Uwch Dîm Arwain
- Teithiau Dysgu

Bydd yr holl wybodaeth am gydraddoldeb mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ar ein gwefan www.bridgend.ac.uk.

5. Trefniadau ar gyfer Asesu Effaith Debygol, Gwirioneddol, a Phresennol ar Grwpiau Gwarchodedig

Rydym yn ymrwymedig i fesur effaith polisiâu, arferion a gweithdrefnau newydd a phresennol ar bob grŵp cydraddoldeb trwy gwblhau asesiadau effaith priodol. Wrth wneud asesiadau, byddwn yn:

- Nodi meini prawf clir ar gyfer mesur perthnasedd polisi, arfer neu weithdrefn o ran cyfleoedd cyfartal i bob grŵp.
- Blaenoriaethu a gosod amserlen ar gyfer asesu pob polisi, arfer a gweithdrefn bresennol a dyfodol yr ystyrir eu bod yn cael effaith ar bob grŵp.
- Casglu a dadansoddi data perthnasol er mwyn cynorthwyo gydag asesiadau effaith.
- Ymgysylltu'n briodol trwy gynnwys ac ymgynghori â phobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan bolisiâu a rhaglenni o gychwyn cyntaf y prosesau datblygu a chynllunio.
- Adolygu a diwygio cynigion yng ngoleuni casglu data, ymgynghori a chynnwys pobl er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith negyddol yn cael ei lliniaru.
- Rhoi hyfforddiant a chymorth i'n staff er mwyn sicrhau eu bod nhw'n hyderus ac yn wybodus wrth wneud asesiadau effaith ar gyfer cydraddoldeb.
- Dyheu am ddarparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb yn ein gwaith.

Bydd angen arweinyddiaeth gref er mwyn cyflawni ein hamcanion. Bydd arweinyddiaeth yn cael ei llywio gan ein Corff Llywodraethu a'n Pennaeth trwy ein grŵp cynllunio strategol yn bennaf. Ein Cyfarwyddwr Pobl sydd â chyfrifoldeb strategol dros yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac sydd yn goruchwylio gweithredu, monitro ac adolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel weithredol ar gyfer materion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb strategol dros yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer materion sy'n ymwneud â myfyrwyr.

Mae gan bob tîm yn y Coleg gyfrifoldeb am gyflenwi gweithredol. Bydd pob Pennaeth Cwricwlwm a Rheolwr Cwricwlwm yn sicrhau bod gan eu staff y sgiliau a'r wybodaeth briodol angenrheidiol ynghylch cydraddoldeb.

Byddwn yn adolygu ein gwybodaeth, tystiolaeth ymgysylltu, asesiadau effaith ac amcanion yn flynyddol. Bydd cyflawniad yn erbyn yr amcanion yn cael ei fonitro a bydd gwybodaeth sydd ar gael yn cael ei archwilio er mwyn sicrhau ein bod ni'n nodi a gweithredu strategaethau ac amcanion newydd mewn modd priodol.

6. Cynllun gweithredu ynghylch amcanion cyflog y rhywiau

O'i ddefnyddio i'w lawn botensial, mae adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adnodd gwerthfawr ar gyfer asesu lefelau cydraddoldeb yn y gweithle, cyfranogiad gwrywod a benywod, a pha mor effeithiol y mae talent yn cael ei facsimeiddio. Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y pen draw i gyflawni'r amcan hwn dros y 12 mis nesaf, hyd at 2020:

Recriwtio

- Gwerthuso ein proses recriwtio yn feirniadol er mwyn dileu rhagfarn (cyn belled ag y bo modd), gan gynnwys defnyddio delweddau sy'n niwtral o ran y rhywiau.
- Sicrhau bod yr holl staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio wedi derbyn

hyfforddiant ar gyfer adnabod a herio rhagfarn.

- Archwilio sianeli recriwtio er mwyn sicrhau yr ydym yn defnyddio'r rheini sy'n cyrraedd yr amrediad mwyaf amrywiol o ymgeiswyr, ac felly'n sicrhau dull cynhwysol.
- Ymgysylltu'n fwy effeithiol â staff er mwyn deall
- Cymryd rhan weithredol wrth recriwtio mewn lleoedd amrywiol, megis ffeiriau recriwtio mewn prifysgolion, rhwydweithiau anabledd, a chyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc am y cyfleoedd gyrfaoel gwahanol sydd ar gael yn y sector Addysg Bellach.

Hyfforddiant, Datblygiad a Chynnydd

- Gweithio gyda Rheolwyr ar draws y sefydliad i ddatblygu dull cynhwysol o gynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Adolygu data sy'n ymwneud â recriwtio, tâl, datblygiad gyrfaoel a throsiant yn barhaus er mwyn sefydlu dull cynhwysol sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar y person ac sy'n cefnogi ein staff i gyd i fod yn bopeth y gallant fod.

Cadw Staff

- Mae Coleg Penybont yn gweithio ar ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer cefnogi cyflogeion cyn, yn ystod ac wrth ddychwelyd ar ôl cyfnodau mamolaeth a thadolaeth, a'u hategu gyda hyfforddiant ar gyfer pob rheolwr llinell ac uwch reolwr.
- Annog cyflogeion i ystyried opsiynau gofal plant fforddiadwy gyda'r Feithrinfa Ddydd ar y safle.
- Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd mwy clyfar a hyblyg o weithio i fodloni anghenion ein cyflogeion, myfyrwyr a rhanddeiliaid.

7. Y Gymraeg

Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac nad yw myfyrwyr, staff na rhanddeiliaid o dan anfantais annheg wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

8. Hyrwyddo Gwybodaeth a Dealltwriaeth am y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol ymhlith Cyflogeion

Mae ein hamcanion uchod yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth hollgynhwysol ar gyfer yr holl staff ynghylch y dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn fewnol ac yn allanol ac yn ymgorffori cydraddoldeb yn ein holl bolisiâu a'n harferion.

9. Cysylltwch â Ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni:

E-bost: jobs@bridgend.ac.uk

Ffôn: 01656 302302

Ysgrifenedig: Coleg Penybont, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3DF.